

Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion 2010/11

Cyflwyniad

Beth yw Trosolwg a Chraffu?

Darparodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 drefniadau gweithredol a ddisodlodd yr hen system bwyllgorau llywodraeth leol â system lle y mae gweithrediaeth fach, bendant (y Cabinet) yn gyfrifol am gynnig arweinyddiaeth ac am gymryd penderfyniadau o fewn fframwaith y bydd y cyngor llawn yn cytuno arno; a lle y mae'r pwyllgorau trosolwg a chraffu newydd yn adolygu perfformiad y weithrediaeth ac yn chwilio am welliannau a datblygiadau parhaus.

Mae strwythur presennol Trosolwg a Chraffu yng Ngheredigion yn seiliedig ar chwe adran wreiddiol y Cyngor.

Mae *Canllawiau Statudol i'r Cyngorau Sir a'r Cyngorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen (2006)* yn nodi bod pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn rhan hanfodol ac annatod o drefniadau gweithrediaeth. O dan adran 21 o'r Ddeddf, rhoddir pwerau adolygu a chraffu eang iddynt ynghyd â'r gallu i gyflwyno adroddiadau ac argymhellion ar unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r ardal a'i thrigolion. Swyddogaeth y cyngorwyr sy'n trosolygu ac yn archwilio yw:

- dal y weithrediaeth yn atebol am arfer swyddogaethau'r weithrediaeth yn effeithlon –yn arbennig perfformiad y weithrediaeth o'i fesur yn erbyn y safonau, yr amcanion a'r targedau a nodir yn y polisiau a'r cynlluniau y mae'n eu gweithredu;
- helpu i wella ac i ddatblygu polisiau'r cyngor drwy bwysu a mesur a ydynt yn cyrraedd yr amcanion a nodwyd, a yw'r polisiau hynny a'r ffordd y maent yn cael eu gweithredu yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau lleol a thrwy gyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r weithrediaeth neu i'r cyngor llawn;
- adolygu materion sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu ei thrigolion a chyflwyno adroddiadau arnynt; ac
- edrych a yw'r systemau y mae'r weithrediaeth wedi'u sefydlu i gyflwyno'i swyddogaethau yn gadarn ac yn cael eu parchu'n iawn.

Yn ychwanegol, byddant yn gallu adolygu sut mae'r swyddogaethau anweithredol yn cael eu cyflawni a chyflwyno adroddiadau ar faterion o ddiddordeb lleol mwy cyffredinol. Gallai hyn gael ei gyplysu â'r awdurdod o dan Ran 1 o'r Ddeddf i hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, drwy nodi meysydd y gallai'r weithrediaeth roi sylw iddynt drwy ddefnyddio'r pŵer hwn.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gyhoeddwyd yn fwy diweddar yn nodi bod rôl glir i swyddogaeth graffu awdurdod yn ei brosesau gwella: fel rhan o'i rôl yn galw penderfynwyr a llunwyr polisi i gyfrif yn lleol, a'i rôl yn datblygu polisiau. Dylai hyn ymestyn i:

- graffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
- craffu ar addasrwydd y sefydliad i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
- craffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth ddewis ei amcanion gwella, gan gynnwys adolygu lefel yr ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- craffu ar fonitro'r cynnydd wrth gyflenwi amcanion gwella'r awdurdod;
- hyrwyddo arloesi trwy herio'r drefn ac annog ffyrdd gwahanol o feddwl ac opsiynau cyflenwi.

Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

Cyfarfu'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar chwe achlysur yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2010/2011.

Ymhlith yr eitemau safonol a ystyrir ym mhob Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y mae diweddariad ar ddatblygiadau yn y maes Craffu a diweddariad gan y Cadeiryddion ar waith eu Pwyllgorau.

Materion allweddol a ystyriwyd yn ystod 2010/11

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ynghylch Cynllun Gwella Drafft 2010/11 ac atgoffwyd yr aelodau am y drefn archwilio newydd a oedd yn cael ei chyflwyno o dan ddarpariaeth Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Tynnodd y Pwyllgor sylw at yr angen i ddatblygu'r cynigion ar gyfer ailstrwythuro, yr angen i bwysleisio gwaith corfforaethol drwy'r Awdurdod a'r angen i glymu blaenoriaethau'r gwasanaethau â'r broses gyllidebol.

Cafodd y Pwyllgor wybodaeth ynglŷn â'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a'r goblygiadau i'r partneriaethau, gan gynnwys y Cyngor Sir, ym maes Tlodi Plant. Yn dilyn hyn, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn cyfrannu at y gwaith o greu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc diwygiedig.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ynghylch y cynnydd a wnaed o ran Cynllun drafft Plant a Phobl Ifanc 2011-14, ynghyd â diweddariad ynghylch y broses fonitro ar gyfer Cynllun Plant a Phobl Ifanc cyfredol 2008-11. Byddai mewnbwn y Pwyllgor yn cael ei ystyried wrth ddatblygu Cynllun Plant a Phobl Ifanc 2011-14.

Cyflwynodd yr Arweinydd gyllideb arfaethedig 2011-12 i'r Pwyllgor. Bu iddynt ystyried y gyllideb gyfan cyn i'r pwyllgorau unigol ystyried y cyllidebau drafft ar gyfer eu gwasanaethau perthnasol. Fel rhan o'r gwaith o baratoi cyllideb ar gyfer 2011-12, sicrhawyd bod yr aelodau yn rhan o'r broses yn gynnar drwy gynnal tri gweithdy ynghylch y gyllideb.

Ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles arfaethedig ar gyfer 2011-14. Cafodd y Pwyllgor wybodaeth amdani oddi wrth swyddogion y Cyngor a chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Hywel Dda. Byddai argymhellion y Pwyllgor yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu. Byddai'r rhain yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth unwaith y penderfynid yn derfynol ar y blaenoriaethu.

Bu i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ynghylch Datblygu Rhaglenni Gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu at y Dyfodol ar gyfer 2011/12. Rôl y Pwyllgor Cydlynu yw goruchwyllo'r Rhaglenni Gwaith at y Dyfodol gan sicrhau eu bod yn berthnasol i'r blaenoriaethau corfforaethol a'u bod yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol. Bydd y rhaglenni gwaith hyn wedi eu cydlynu fel y gellir osgoi dyblygu a bydd modd eu rheoli o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Byddant hefyd yn realistig ac yn ychwanegu gwerth. Cytunodd y Pwyllgor y

dylai pob pwyllgor ystyried eu Rhaglenni Gwaith unigol at y Dyfodol yn unol â'r canllawiau yn yr adroddiad. Hefyd, bu i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr hyn oedd ei angen i ddatblygu cynlluniau ar gyfer cefnogi a datblygu aelodau gyda'r bwriad o sicrhau statws siarter yn y dyfodol agos.

Materion Trosedd ac Anhrefn

Daeth Adrannau 19 ac 20, Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ynghyd â Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009 i rym ar 1 Hydref 2009.

Roedd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu:

- 'pwyllgor craffu trosedd ac anhrefn' a fyddai'n craffu ar waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion a'r cyrff sy'n aelodau (y Cyngor, Heddlu Dyfed Powys, Awdurdod Heddlu Dyfed Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Bwrdd Iechyd Hywel Dda, sef yr awdurdodau cyfrifol) wrth gyflawni eu swyddogaethau o ran diogelwch cymunedol
- Gweithdrefn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, y bartneriaeth a'r cyrff sy'n aelodau ei dilyn wrth ymdrin â Chynghorwyr yn Galw am Weithredu (yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol).

Bu i Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu presennol y Cyngor ymgymryd â'r cyfrifoldebau dros faterion trosedd ac anhrefn.

Materion Trosedd ac Anhrefn a gwaith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion

Yn wreiddiol, cafodd y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eu creu gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i ddatblygu a gweithredu strategaethau i leihau trosedd ac anhrefn. Bwriad Partneriaeth Ceredigion yw 'gweithio gydag unigolion, mudiadau a chymunedau i adeiladu cymdeithas ddiogel, deg a goddefgar i'r sawl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Cheredigion'. Yn ogystal â chynrychiolwyr yr awdurdodau cyfrifol, mae'r Partneriaeth hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Ceredigion, Ymddiriedolaeth Prawf Dyfed-Powys, y Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion, Prifysgol Aberystwyth, y Cydlynnydd Comisiynu Camddefnyddio Sylweddau a'r Rheolwr Diogelwch Cymunedol.

Yn dilyn Aseiad Strategol 2007, prif themâu'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol gyfredol (2008-11) yw'r canlynol:

- Yr Economi gyda'r nos ac yn hwyr y nos
- Troseddu treisgar a throseddu sy'n gysylltiedig ag alcohol
- Byrgleriaeth a throseddau yn ymwneud â cheir

- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac Ofn Troseddau
- Diogelwch ar y Ffyrdd

Materion allweddol a ystyriwyd yn ystod 2010/11

Rhoddodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol gyflwyniad i'r Pwyllgor ynghylch Aseiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Ceredigion ar gyfer 2010/11. Yn dilyn pryderon y Pwyllgor ynghylch diogelwch ar y ffyrdd, daeth y swyddogion priodol ynghyd â chynrychiolydd o Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru i'r Pwyllgor i roi cyflwyniad ynghyd â'r adolygiad au a oedd yn cael eu cynnal ynghylch y terfynau cyflymder presennol ar ffyrdd a chefnffyrdd y sir.

Hefyd, rhoddodd y Cydlynnydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wybodaeth i'r Pwyllgor ynghyd â Gweithdrefnau Ceredigion ynghylch Ymddygiad Gwrthgymdeithasol; gweithdrefnau yr oedd y Cabinet wedi eu mabwysiadu'n ddiweddar.

Presenoldeb yr Aelodau

Mae presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn ar gyfer y chwe chyfarfod a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2010/11 i'w weld isod .

| Enw'r Aelod Craffu | Nifer o gyfarfodydd y bu'r Aelod yn bresennol ynddynt |
|------------------------------|--|
| J.D.R. Jones MBE (Cadeirydd) | 6 |
| E.E. ap Gwynn (Is-gadeirydd) | 6 |
| I. ap Dewi | 6 |
| I.Ll. Davies | 1 |
| D.W. Edwards | 4 |
| B.T. Evans | 6 |
| D.J. Evans | 3 |
| G.E. Evans | 5 |
| P.B.J. Hinge | 4 |
| C.J. Hughes | 4 |
| R.G. Lloyd | 0 |
| W.D.L. Lloyd | 6 |
| C. Miles | 4 |
| J.E. Roberts | 5 |

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Ewrop

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Ewrop ar ddeg achlysur yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2010/2011.

Materion allweddol a ystyriwyd yn ystod 2010/11

Bu i'r Pwyllgor barhau â'i adolygiad i adfywio yng Ngheredigion; adolygiad a ddechreuodd yn 2009/10. Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth oddi wrth gynrychiolydd o Swyddfa Brisió Caerfyrddin ynghylch y broses ail-brisió ddiweddar yng nghyswllt Ardrethi Annomestig Cenedlaethol. Roedd cynrychiolwyr o Siambrau Masnach Ceredigion hefyd yn bresennol i gyfrannu at y trafodaethau.

Yr Economi Wledig oedd prif bwnc un o'r cyfarfodydd pan ddaeth cynrychiolydd o Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), Ymgynghorydd Polisi Ffermydd NFU Cymru a Chadeirydd Sirol NFU Ceredigion i roi dystiolaeth i'r Pwyllgor. Amlinellwyd y ffyrdd y gallai'r Cyngor Sir gynorthwyo ffermwyr. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- sicrhau bod yr amodau gwaith yn hyblyg fel y gall ffermwyr rhan amser gael gwaith yn y Cyngor a gweithio o amgylch dyletswyddau fferm;
- annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i barhau i weithio ar rwydweithiau'r ffyrdd;
- rhoi blaenoriaeth i gadw ffyrdd bychain ar agor yn ystod tywydd gwael, yn enwedig i gynhyrchwyr llaeth, er mwyn lleihau'r golled ariannol i'r ffermwr;
- annog arallgyfeirio drwy gynhyrchu ynni gwyrdd a microgynhyrchu;
- annog twristiaeth wledig e.e. gwyliau gyda cheffylau;
- annog Caffael Lleol (efallai y byddai'r gwasanaethau yn costio mwy ond yn y tymor hir byddai'n diogelu swyddi lleol);
- ystyried ffyrdd o annog mentergarwch yn hytrach na chwtdgi gwasanaethau yn ystod y wasgfa debygol ar y gyllideb e.e. os yw llyfrgell yn costio £50,000 y flwyddyn i'w rhedeg, gallai'r Cyngor ystyried rhoi £30,000 i gwpl ifanc redeg y gwasanaeth.

Ar ôl casglu dystiolaeth yn y cyfarfod hwn, penderfynwyd y byddai'r broses gaffael leol yn cael ei chynnwys ar Raglen Waith y Pwyllgor at y Dyfodol. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y byddai Stad Ffermydd y Sir yn cael ei chynnwys ar y Rhaglen Waith at y Dyfodol.

Yn dilyn yr adolygiad ynghylch adfywio yng Ngheredigion, ystyriodd y Pwyllgor strategaeth gaffael y Cyngor. Codwyd y mater hwn oherwydd pryderon y Pwyllgor nad oedd trigolion lleol yn ennill tendrau, a gofynnwyd a fyddai modd rhoi mantais i fusnesau lleol. Ystyriodd y Pwyllgor y Swyddogion Caffael argymhellion y Pwyllgor, ac roedd ym cytuno y byddai'r

Aelodau a'r Swyddogion yn elwa o sesiynau a fyddai'n egluro'r cyfleoedd yr oedd y Strategaeth Gaffael gyfredol yn ei chynnig ar gyfer caffael cyflenwadau a gwasanaethau. Cynhaliodd aelod o'r tîm cyfreithiol sesiwn briffio ynghylch y Strategaeth Gaffael gyfredol.

Bu i'r Pwyllgor fonitro argymhelliad Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Priffyrdd, Eiddo a Gwaith ynghylch parcio dros benwythnosau yng Nghanolfan Rheidol. Dechreuodd y drafodaeth honno yn ystod 2009/10 a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Ewrop oedd wedi cyfeirio'r mater hwn yn wreiddiol .

Ystyriodd y Pwyllgor y gyllideb yr oedd y Cabinet yn ei hargymell ar gyfer 2011/12.

Ar ddechrau'r flwyddyn, rhoddodd y Rheolwr Gŵp, Marchnata a Chyfathrebu ddiweddiariad ynghylch Twristiaeth a Marchnata yn y Sir. Yn dilyn hyn, cafwyd cyflwyniad ynghylch y gwaith o baratoi Strategaeth Dwristiaeth ddrafft Ceredigion yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac ar ôl hynny, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Gyfarwyddwr y Cwmni Twristiaeth, Pennaeth Ymchwil a Datblygiad, Coleg Prifysgol y Drindod ynghyd â swyddogion yr Awdurdod ynglŷn â chreu'r strategaeth a'r cynnwys. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn parhau i fonitro'r strategaeth yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol nesaf.

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sefyllfa gyfredol Ardal Adfywio Strategol Aberystwyth. Yn dilyn hyn, bu'r Pwyllgor yn ymchwilio i faterion yn ymwneud ag adeiladau'r ystâd gorfforaethol a oedd mewn cyflwr gwael, gan fynd i'r afael â'r adeiladau allweddol yn y dref ac ar lan y môr a oedd yn wag neu a oedd yn cael eu tanddefnyddio, yn enwedig felly Gwesty'r Bae. Yn dilyn adolygiad y Pwyllgor, gofynnwyd am adroddiad cynhwysfawr ynghylch Gwesty'r Bae gan gynnwys yr holl opsiynau a oedd ar gael i'r Cyngor o ran datrys y sefyllfa, gan gynnwys cymryd camau gweithredu o dan delerau'r brydles i fynnu bod y gwaith trwsio angenrheidiol yn cael ei gyflawni, fel y gallai'r Pwyllgor ei ystyried cyn i'r adroddiad fynd gerbron y Cabinet.

Bu i'r Pwyllgor fonitro'r adolygiad ynghylch y Gwasanaeth Cofrestru Sifil drwy'r flwyddyn, a bydd hyn hefyd yn parhau i'r flwyddyn nesaf. Y materion allweddol a nodwyd y dylid eu gwella oedd cynllunio ar gyfer dilyniant staff, swyddogaeth swyddog hyfforddi'r sir a strategaeth hyfforddi ar gyfer y sir gyfan, gwella gallu technegol y staff cofrestru, cyflwyno trefniadau llywodraethu newydd, ac uno'r tair ardal gyfredol.

Yn ystod 2010/11, dechreuodd y Pwyllgor ei adolygiad i Stad Ffermydd y Sir, drwy gasglu tystiolaeth o'r tîm Ystadau. Tynnwyd sylw at yr angen i ystyried cynlluniau busnes ar gyfer ffermydd a'r posibilrwydd o sicrhau gwerth ychwanegol o arallgyfeirio ar ffermydd, defnyddio tyrbinau ar gyfer cynhyrchu ynni, defnyddio'r Ganolfan Fwyd yn Horeb a chyfrannu at siopau fferm fel meysydd y byddai modd eu hystyried ymhellach. Byddai'r adolygiad yn parhau yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol nesaf.

Bu i'r Pwyllgor ystyried Rhaglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu at y Dyfodol ar gyfer 2011/12, a fyddai'n cael ei fonitro a'i ddatblygu drwy'r flwyddyn fwrdeistrefol nesaf.

Presenoldeb yr Aelodau

Mae presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn ar gyfer y deg cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2010/11 i'w weld isod.

| Enw'r Aelod Craffu | Nifer o gyfarfodydd y bu'r Aelod yn bresennol ynddynt |
|---------------------------|--|
| G.E. Evans (Cadeirydd) | 10 |
| R.G. Lloyd (Is-gadeirydd) | 7 |
| T.J. Adams-Lewis | 6 |
| G. Davies | 8 |
| I.Ll. Davies | 2 |
| J.A. Davies | 1 |
| I. ap Dewi | 10 |
| D.W. Edwards | 7 |
| R. Gorman | 7 |
| S.G. Hopley | 8 |
| J.D.R Jones MBE | 9 |
| O. Llywelyn | 0 |
| D.R. Rees-Evans | 10 |

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Addysg, Diwylliant a Hamdden

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Diwylliant a Hamdden ar naw achlysur yn ystod flwyddyn fwrdeistrefol 2010/2011.

Materion allweddol a ystyriwyd yn ystod 2010/11

Bu i'r Pwyllgor ystyried a chefnogi'r ymgynghoriad drafft ynghylch y Cynllun Addysg Gymraeg ar gyfer 2010-15. Ystyriwyd y data allweddol ynghylch codi safonau.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adborth a gafwyd o'r cyfarfodydd ymgynghori a gynhaliwyd yn Nhregaron a Llandysul ynghylch yr Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer yr ysgolion 3-19 syth-drwodd. Yn dilyn hynny, cafodd penderfyniad y Cabinet ynghylch datblygu Addysg yn ardaloedd Llandysul a Thregaron ei alw i mewn gan y Pwyllgor. Yn ystod un o'r cyfarfodydd, cynigiwyd y dylid cyfeirio'r penderfyniad at y Cyngor. Ni chefnogwyd hyn gan y Pwyllgor cyfan a chymeradwywyd penderfyniad y Cabinet. Serch hynny, cytunodd y Pwyllgor y dylid gofyn i'r Cabinet, pan fyddai'n gweithredu cofnod C490(ii), ystyried patrwm arall ar gyfer darparu addysg 3-19 yn ardal Llandysul.

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cynigion a oedd i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru am arian cyfalaf o dan gynllun 'Ysgolion yr 21^{ain}'. Cafodd y Pwyllgor hefyd y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Cynllun Peilot Ysgol 3-19 Llanbedr Pont Steffan. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, cyflwynwyd adolygiad ac asesiad effaith ynghylch cynllun peilot 3-19 Llanbedr Pont Steffan i'r pwyllgor.

Rhoddyd gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch y sefyllfa gyfredol o ran gweithredu strategaeth Ysgolion Cynradd y Cyngor. Galwyd i mewn penderfyniad y Cabinet ynghylch Ysgol Gymuned Penlon. Yn dilyn trafodaethau, cytunwyd y dylid argymhell bod y Cyngor yn gofyn i'r Cabinet ohirio ei benderfyniad ynghylch yr ysgol tan fis Medi 2011 gan adolygu'r sefyllfa bryd hynny, a rhoi'r gorau i gynnal yr ysgol pe bai nifer y disgyblion yn cwmpo dan ugain. Cynhaliwyd pleidlais yn y Cyngor llawn ac roedd 12 o blaid y cynnig, 12 yn erbyn a 2 wedi ymatal. Defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw i bleidleisio yn erbyn y cynnig a daeth penderfyniad gwreiddiol y Cabinet i rym yn syth.

Cyflwynwyd canlyniadau addysgol 2010 i'r Pwyllgor. Darparwyd hefyd ddadansoddiad o ganlyniadau Cyfnod Allweddol 4 a'r canlyniadau ôl-16 ar gyfer 2010.

Cafodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch Anghenion Addysg Arbennig. Yn dilyn hyn, ffurfiwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn cynnwys tri o Aelodau'r Pwyllgor i daro golwg ar y strategaeth yn fwy manwl. Yn ddiweddarach, bu iddynt adrodd eu canfyddiadau gerbron y prif Bwyllgor.

Gwahodddwyd cynrychiolydd o Rathbourne Cymru i sôn am waith y sefydliad o ran targedu pobl ifanc rhwng 11 a 25 oedd sydd mewn perygl o fod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETS).

Ystyriodd y Pwyllgor Asesiad Blynyddol CyMAL o berfformiad Gwasanaeth Llyfrgell Ceredigion yn unol â'r Fframwaith Safonau Cenedlaethol. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau cyson ynghylch symud y llyfrgell i neuadd y dref. Hefyd, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch cyfleusterau hamdden, a dysgu sy'n seiliedig ar waith (Ceredigion-Powys).

Ystyriodd y Pwyllgor y gyllideb yr oedd y Cabinet yn ei hargymell ar gyfer 2011/12.

Cafodd y Pwyllgor wybodaeth ynghylch Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru, sef chwech o gyfarwyddwyr a oedd yn cwrdd yn rheolaidd, i nodi arbedion effeithlonrwydd yn y rhanbarth.

Cyflwynodd awduron yr astudiaeth ddichonoldeb ynghylch sefydlu canolfan rhagoriaeth addysg yng Ngheredigion eu canfyddiadau i'r Pwyllgor. Byddai'r Pwyllgor yn monitro'r mater hwn eto yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol nesaf.

Presenoldeb yr Aelodau

Mae presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn ar gyfer y naw cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2010/11 i'w weld isod.

| Enw'r Aelod Craffu | Nifer o gyfarfodydd y bu'r Aelod yn bresennol ynddynt |
|---------------------------|--|
| I. ap Dewi (Cadeirydd) | 9 |
| D.J Evans (Is-gadeirydd) | 6 |
| E.E. ap Gwynn | 7 |
| I.LI Davies | 3 |
| J.T.O Davies | 7 |
| R. Davies | 7 |
| D. Edwards | 8 |
| G.E Evans | 5 |
| P.B.J Hinge | 4 |
| C.J Hughes | 8 |
| T.H Lewis | 9 |
| R.G Lloyd | 6 |
| G.I Lloyd | 6 |
| O. Llywelyn | 4 |
| C. Miles | 8 |
| D.R Rees Evans | 6 |
| J.I Williams | 6 |

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai ar chwe achlysur yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2010/2011.

Materion allweddol a ystyriwyd yn ystod 2010/11

Ar ddechrau'r flwyddyn, cafodd yr aelodau grynodedb o strwythurau a gwasanaethau cyfredol yr adran gan gynnwys gwybodaeth ynghylch nodau ac amcanion y gwasanaeth, gweithredu'r cynllun gwasanaeth, a'r canlyniadau. Yn dilyn hyn, penderfynodd y Pwyllgor ar y pynciau/materion a fyddai'n cael eu cynnwys fel rhan o Raglen Waith y Pwyllgor at y dyfodol. Cafodd y Pwyllgor arddangosiad o'r system Ffynnon, gan gynnwys diweddariad ar y cynlluniau busnes adrannol a'r cynlluniau gwasanaeth.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ynghylch Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd a fyddai'n cael ei roi ar waith fesul cam ar draws y Sir.

Rhodddwyd diweddariad ynghylch y caniatadau cynllunio heb eu gweithredu – safleoedd a allai fod ar gael, ac yn sgil hynny cytunwyd y dylid adrodd y mater gerbron y Cabinet i'w ystyried ymhellach. Mynegwyd pryderon nad oedd hen ganiatadau yn cael eu gweithredu. Gallai hynny olygu na chaiff anghenion eu diwallu a gallai atal pobl eraill rhag cynnig datblygiadau eraill.

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor adroddiad ynghylch y Cod Cartrefi Cynaliadwy. Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth ynghylch y gofynion ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Nodyn Cyngor Technegol parthed Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy, a'r gofyniad i fodloni'r Cod Cartrefi Cynaliadwy. Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch cymhlethdod y Nodyn Cyngor Technegol ac awgrymwyd y gellid paratoi canllaw syml.

Bu i'r Pwyllgor fonitro perfformiad diweddaraf yr Adain Rheoli Datblygu. Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth fanwl ynghylch rôl y Swyddog Gorfodi. Yn dilyn hyn, daeth y swyddog gorfodi i'r Pwyllgor i ddiweddarau'r aelodau ynghylch y Siarter Gorfodi drafft. Cytunwyd y byddai'r Siarter yn cael ei fonitro ar y system adroddiadau ansawdd. Cyfeiriwyd at adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y gwaith o fonitro'r Gwasanaeth Rheoli Datblygu. Teimlai'r Pwyllgor fod y materion ynghylch y nifer o aelodau ar y Pwyllgor Rheoli Datblygu y tu allan i gylch gwaith Swyddfa Archwilio Cymru, a bu i'r Pwyllgor nodi gwelliant sylweddol yn y Gwasanaeth. Ystyriwyd crynodeb o'r gweithgareddau yn dilyn adroddiadau 2008 a 2010 Swyddfa Archwilio Cymru yn un o gyfarfodydd y pwyllgor. Cytunwyd y byddai adolygiad bob chwe mis ynghylch materion gorfodi cynllunio yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch Trwyddedu ym maes BridiwrC
Ystyriwyd y Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch, a oedd yn cynnwys

manylion ynghylch y gwasanaeth, sut yr oedd cwynion yn cael eu blaenoriaethu gan gynnwys system codau lliw'r matrices risg a ffactorau lleol. Bu i'r Pwyllgor fonitro Dangosyddion Perfformiad y Pwyllgor drwy'r flwyddyn.

Ystyriodd y Pwyllgor y gyllideb yr oedd y Cabinet yn ei hargymell ar gyfer 2011/12.

Ystyriwyd Rhaglen Samplu Pyllau Nofio'r adran. Bu i'r Pwyllgor argymhell bod taflen a fyddai'n rhoi canllawiau ynghylch diogelwch ansawdd mewn pyllau nofio bychain ar gael i'r cyhoedd. Hefyd, argymhellwyd y dylai'r gwasanaeth samplu pyllau nofio fod ar gael i'r cyhoedd ar gyfradd fasnachol.

Ni ystyriwyd tai fforddiadwy, a oedd wedi ei nodi yn eitem ar gyfer adolygiad trylwyr ar y rhaglen waith at y dyfodol, yn fanwl oherwydd y gwaith yr oedd yr adran yn ei wneud ar hyn o bryd ynghylch tai fforddiadwy. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys gweithgor craidd tai fforddiadwy ac wyth is-grŵp. Gwahodwyd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i eistedd ar y grwpiau hyn gan roi adborth i'r Pwyllgor ynghylch y cynnydd.

Ystyriodd y Pwyllgor y ffigurau digartrefedd, lle nodwyd y sefyllfa bresennol. Mynegodd yr Aelodau bryderon ynglŷn â'r nifer o achosion o ddigartrefedd yn y Sir. Amlinellwyd y rhesymeg y tu ôl i system newydd y Grant Tai Cymdeithasol. Yn dilyn hyn, argymhellwyd y dylid diweddarau'r strategaeth dai; y dylid llunio rhaglen ar gyfer y dyfodol er mwyn delio ag achosion digartrefedd a ragwelir gan y newidiadau i'r system budd-daliadau; ac y dylid cyflwyno diweddariad ynghylch canlyniad y cynlluniau a ganiatawyd gan y Grant Tai Cymdeithasol yn un o gyfarfodydd y dyfodol.

Presenoldeb yr Aelodau

Mae presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn ar gyfer y chwe chyfarfod a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2010/11 i'w weld isod.

| Enw'r Aelod Craffu | Nifer o gyfarfodydd y bu'r Aelod yn bresennol ynddynt |
|-----------------------------|---|
| D.W Edwards (Cadeirydd) | 6 |
| P.B.J Hinge (Is-gadeirydd) | 3 |
| J.M Cole | 4 |
| A Davies | 3 |
| D.R Davies | 3 |
| LI.G Edwards MBE | 4 |
| S.G Hopley | 5 |
| A.LI Jones | 4 |
| T.H Lewis | 6 |
| J. Lumley (aelod o 1/12/10) | 2 |
| J.E Roberts | 5 |
| D. Suter | 3 |
| A. Williams | 3 |

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid a Pheronél

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid a Pheronél ar saith achlysur yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2010/2011.

Materion allweddol a ystyriwyd yn ystod 2010/11

Ystyriodd y Pwyllgor y modd y cyflenwir y Gwasanaethau Rheoli'r Trysorlys a bu iddo gytuno bod angen parhau i ddefnyddio ymgynghorwyr ariannol yn hytrach na gweithredu gwasanaeth mewnol.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ynghylch arfarnu swyddi, a bu iddo gytuno y dylid rhoi rhagor o ddiweddariadau ynghylch y model ac adroddiad ynghylch cyflog cyfartal i'r Pwyllgor drwy'r flwyddyn. Yn ogystal, cyflwynwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch Ymddeol yn Gynnar yn wirfoddol.

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sefyllfa buddsoddiadau Banciau Gwlad yr Ia drwy'r flwyddyn.

Bu i'r Pwyllgor adolygu'r ddarpariaeth ffonau symudol i'r Aelodau. Gwnaethant yr argymhellion canlynol i'r Cabinet:

- dylid darparu'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd â ffôn symudol *Windows* at bwrpas gwaith y Cyngor;
- gall unrhyw Aelod Etholedig arall a hoffai ffôn symudol *Windows* at bwrpas gwaith y Cyngor fedru gofyn am ffôn o'r fath ar yr amod y telir y gost rhent misol, a'r gost gyfalaf dros gyfnod o 12 mis, drwy ei dynnu allan o'u lwfansau misol;
- byddai'r ffonau uchod yn parhau i fod o dan berchnogaeth y Cyngor ac ynghlwm wrth amodau contract y Cyngor â'r darparwr; ac ni ddyrennir unrhyw Aelod â ffôn symudol safonol.

Cytunodd y Cabinet ag argymhellion y Pwyllgor.

Rhodddwyd diweddariad ynghylch absenoldebau staff yn y Cyngor oherwydd salwch a chytunwyd y dylid cael adroddiadau rheolaidd ynghylch absenoldebau staff yn y dyfodol ac adolygiad o'r system iechyd galwedigaethol a oedd yn mynd rhagddo. Hefyd, bu i'r Pwyllgor ystyried y newidiadau o fewn Adnoddau Dynol a chymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd.

Ystyriodd y Pwyllgor y gyllideb yr oedd y Cabinet yn ei hargymell ar gyfer 2011/12.

Adolygodd y Pwyllgor y sefyllfa o ran Adennill Treth y Cyngor ac Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (Ardrethi Busnes). Edrychodd y Pwyllgor ar nifer yr unigolion ymhob band Treth y Cyngor a fethodd â thalu eu Treth Cyngor ynghyd â nifer y 'troseddwr mynych' a'r rhai 'un tro yn unig'. Yn dilyn trafodaethau, cynigiodd y Pwyllgor yr argymhelliad canlynol i'r Cabinet, y dylid

annog pob Aelod i dalu Treth y Cyngor drwy ddebyd uniongyrchol, neu drwy ddidyniad o'u lwfansau bob mis, ac y dylid creu gweithdrefn lle byddai unrhyw ôl-ddyled Treth y Cyngor yn cael ei didynnu o lwfans misol y Cynghorydd dan sylw ar ôl i ddau fis fynd heibio. Bu i'r Cabinet gefnogi argymhellion y Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Cyngor faterion ynghylch rôl Cadeirydd y Cyngor a lefel lwfans y Cadeirydd i'r Pwyllgor. Yn dilyn hynny, cytunwyd y dylid cyfeirio'r protocol ynghylch rôl y Cadeirydd i'r Pwyllgor Cydlynu. Cyfrannodd yr Aelodau at lanw'r holiadur a gafwyd oddi wrth Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Presenoldeb yr Aelodau

Mae presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn ar gyfer y saith cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2010/11 i'w weld isod.

| Enw'r Aelod Craffu | Nifer o gyfarfodydd y bu'r Aelod yn bresennol ynddynt |
|---------------------------|---|
| B.T Evans (Cadeirydd) | 7 |
| C. Miles (Is-gadeirydd) | 6 |
| E.E ap Gwynn | 6 |
| J.M Cole | 4 |
| J.A Davies | 1 |
| G. Davies | 4 |
| D. Edwards | 5 |
| LI.G Edwards MBE | 7 |
| D.J Evans | 2 |
| J.D.R Jones MBE | 7 |
| R.G Lloyd | 6 |
| D.R Rees-Evans | 7 |
| J.I Williams | 5 |

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r

Priffyrdd, Eiddo a Gwaith

Cyfarfu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Priffyrdd, Eiddo a Gwaith ar naw achlysur yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2010/2011.

Materion allweddol a ystyriwyd yn ystod 2010/11

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ynghylch y prosiect rhannu gwasanaethau – gwasanaethau peirianeg ac adeiladu, gan dynnu sylw at y prif bethau a gyflawnwyd hyd yma. Hefyd, cafodd yr Aelodau ddiweddariad ynghylch yr adolygiad o asiantaeth y cefnffyrdd.

Ystyriodd y Pwyllgor y modd y rheolir absenoldeb oherwydd salwch yn yr adran, gan gynnwys y polisi, y gweithdrefnau, disgyblaeth, monitro ac adrodd, a'r ystadegau.

Yn yr hydref, amlinellwyd y rhaglen cynnal a chadw dros y gaeaf, a oedd yn cynnwys adolygiad o'r gwasanaeth cynnal a chadw dros y gaeaf a blaenoriaethu llwybrau. Cytunwyd y byddai angen rhagor o eglurhad ar y Pwyllgor ynghylch a oedd yn gyfreithiol i'r Cynghorau Tref a Chymuned brynu biniau ai peidio.

Bu i'r Pwyllgor archwilio'r cynllun casglu gwastraff bwyd cyn iddo gael ei roi ar waith ledled y Sir, gan gynnwys amserlen y prosiect, canfod y trywyddion mwyaf effeithiol, prynu cerbydau, cyhoedduswyd a monitro, addysg a gorfodi. Caiff hyn ei archwilio eto ar ôl i'r cynllun fod ar waith am flwyddyn.

Cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad o'r bwriad i gyflwyno mesurau gorfodi parcio sifil yn y Sir, gan gasglu tystiolaeth oddi wrth swyddogion y cyngor, yr ymgynghorydd ynghylch parcio sifil a chynrychiolydd oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych er mwyn cael tystiolaeth o arfer gorau. Ystyriodd y Pwyllgor y model gweithredu ariannol fel rhan o'r adolygiad. Bu i'r Pwyllgor argymhell i'r Cabinet fod y Cyngor yn symud ymlaen â chyflwyno mesurau Gorfodaeth Parcio Sifil, yn seiliedig ar y model busnes a gyflwynwyd. Cafodd hyn ei dderbyn gan y Cabinet.

Rhodddwyd cyflwyniad llawn i'r aelodau ynghylch y gyllideb a fyddai'n cael ei hargymhell i'r Cabinet. Ar ôl hynny, ystyriodd y Pwyllgor y gyllideb yr oedd y Cabinet yn ei hargymhell ar gyfer 2011/12.

Ystyriodd y Pwyllgor y ddarpariaeth o ran trafndiaeth gyhoeddus yn y Sir. Fel rhan o'r adolygiad, ystyriodd y Pwyllgor y gymhariaeth o'r newid a fu yn nyraniadau'r Grant Gwasanaethau Trafndiaeth Lleol rhwng 2007-08 a 2011-12. Roedd y Pwyllgor yn pryderu nad oedd y fformiwla a oedd yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd, yn ystyried y problemau o ran darparu trafndiaeth yn siroedd gwledig Cymru, lle ceir costau tanwydd uwch, mwy o bellter i deithio,

a phoblogaeth sydd wedi ei wasgaru dros bellteroedd mwy o faint o gymharu â siroedd sy'n fwy trefol eu natur. Mynegodd y Pwyllgor ei farn a gofynnodd am eglurhad oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch y rhesymeg dros y fformiwla ariannu gyfredol lle'r ymddengys bod ardaloedd trefol yn cael mwy o arian drwy'r Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Lleol na siroedd gwledig megis Ceredigion a phaham bod y fformiwla yn canolbwyntio ar boblogaeth yn hytrach nag ystyried natur wledig Sir fel Ceredigion a'r anawsterau cysylltiedig.

Ymwelodd y Pwyllgor â chynllun Diogelu Arfordir y Borth i weld y cynnydd a oedd yn cael ei wneud. Cawsant wybodaeth oddi wrth swyddogion y cyngor, a chynrychiolwyr ATKINS, Bam Nuttall a Royal Haskoning. Yn dilyn hynny, rhannwyd yr aelodau'n grwpiau llai o faint i ymweld â'r safle.



Presenoldeb yr Aelodau

Mae presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn ar gyfer y naw cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2010/11 i'w weld isod.

| Enw'r Aelod Craffu | Nifer o gyfarfodydd y bu'r Aelod yn bresennol ynddynt |
|-----------------------------|---|
| I.LI.Davies (Cadeirydd) | 9 |
| J.E.Roberts (Is-gadeirydd) | 7 |
| T.J.Adams-Lewis | 7 |
| J.T.O.Davies | 8 |
| LI.G.Edwards MBE | 8 |
| G.E.Evans | 8 |
| S.G. Hopley | 9 |
| P.James | 6 |
| T.H.Lewis | 7 |
| G.I.Lloyd | 8 |
| W.D.L.Lloyd | 6 |
| J. Lumley (aelod o 1/12/10) | 5 |
| S.H.Richards | 4 |
| A.Williams | 6 |
| J.I.Williams | 5 |

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyfarfu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar un ar ddeg o achlysuron yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2010/2011.

Materion allweddol a ystyriwyd yn ystod 2010/11

Dechreuodd y Pwyllgor yr adolygiad ynghylch Urddas mewn Gofal yn ystod 2009/10 gan ganolbwyntio ar Urddas mewn Gofal Preswyl a Nyrsio. Yn ystod 2010/11, symudodd yr adolygiad yn ei flaen i ystyried Urddas mewn Gofal Cartref a Gwasanaethau Cymunedol a chanolbwyntiodd trydedd ran yr adolygiad ar Urddas wrth Ryddhau Cleifion o ofal ysbyty. Yn sgil yr adolygiad hwn, cafodd yr aelodau grynodedb o'r lwfansau yr oedd gwahanol grwpiau oedran yn gymwys i'w cael fel y byddai modd iddynt roi gwybod i'w trigolion a chynnwys y wybodaeth yng nghylchlythyron eu wardiau. Cynhaliwyd yr adolygiad yn dilyn galwad y Gweinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol y dylai pob awdurdod lleol graffu ar y mater y tynnwyd sylw ato yn adroddiad yr Ombwdsmon. Daeth nifer mawr o gynrychiolwyr o amrywiaeth eang o asiantaethau gofal i'r cyfarfodydd gan gyfrannu at y trafodaethau.

Ystyriodd y Pwyllgor y materion ariannol a oedd yn ymwneud â'r adran yn dilyn adroddiad i'r Cabinet a amlinellodd y rhesymau paham fod adran y Gwasanaethau Cymdeithasol yn debygol o orwario'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, y cynnydd yr oedd yr adran yn ei wneud o ran sicrhau arbedion drwy nodi arbedion effeithlonrwydd a'r heriau sy'n parhau, a sut yr oedd yr adran yn debygol o ddelio â'r sefyllfa. Dywedwyd bod anghenion demograffig yn golygu y bu cynnydd mawr yn y galw am wasanaethau cymunedol, a oedd yn gysylltiedig â'r cynnydd yn y nifer o bobl a oedd yn cael eu rhyddhau o ofal iechyd.

Yn ystod 2009/10, cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad ynghylch y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Yn ystod 2010/11, cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddar ynghylch sefyllfa'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn yr Awdurdod. Aeth y Pwyllgor yn ei flaen i fonitro'r cynnydd a wnaed yn ystod 2011/12.

Bu i'r Pwyllgor argymhell Adroddiad y Cyfarwyddwr i'r Cyngor. Bu iddynt hefyd dderbyn diweddariadau chwarterol ynghylch Bwrdd Lleol Diogelu Plant ac Adroddiadau'r Swyddog Adolygu Annibynnol.

Bu i'r Pwyllgor fonitro'r cynigion ar gyfer integreiddio Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ceredigion. Roedd yr Aelodau o'r farn y dylid sefydlu tîm o therapyddion galwedigaethol ar y cyd rhwng iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn osgoi dyblygu gwaith.

Cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad o'r Gwasanaethau i'r Henoed Bregus eu Meddwl yn y Sir dros bedwar cyfarfod. Casglwyd tystiolaeth oddi wrth reolwr Ward Enlli, Ysbyty Bronglais a'r Nyrs Seiciatrig Cymunedol â chyfrifoldeb dros

y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Cafodd y Pwyllgor ystadegau a manylion ynghylch y gwasanaethau a ddarperid. Yn ystod cyfarfod arall, gwahoddodd y Pwyllgor gynrychiolwyr o gartref gofal preifat a'r Gymdeithas Alzheimer. Yn y trydydd cyfarfod, casglwyd tystiolaeth oddi wrth Ofalwr yn y Gymuned, Cydlynedd Gofal, gweithiwr cymdeithasol ar gyfer yr henoed a seiciatreg, a gofalwr a oedd yn gofalu am berthynas yn y gymuned. Yn ystod y pedwerydd cyfarfod, casglwyd tystiolaeth oddi wrth Gyfarwyddwr Sirol Hywel Dda, Cyfarwyddwr Nyrsio'r Sir, Pennaeth Iechyd Meddwl y Sir a Dirprwy Brif Swyddog y Cyngor Iechyd Cymuned. Bu i'r Pwyllgor argymhell yr angen clir am ofal nyrsio i'r Henoed Bregus eu Meddwl yng ngogledd Ceredigion. Cytunwyd y byddai swyddogion Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cynnal ymarfer sgopio er mwyn nodi opsiynau ar gyfer y ddarpariaeth nyrsio i'r Henoed Bregus eu Meddwl yn y Sir. Byddai adroddiad ynghylch hyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn yr hydref.

Bu i'r Pwyllgor adolygu Bwrdd Lleol Diogelu Plant Ceredigion yn dilyn ymchwiliad Llywodraeth Cymru i Fyrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru (Tachwedd 2010). Anfonwyd gwahoddiad i bob aelod o'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant ddod i'r cyfarfod.

Ystyriodd y Pwyllgor y gyllideb yr oedd y Cabinet yn ei hargymhell ar gyfer 2011/12.

Ystyriodd y Pwyllgor y ddarpariaeth o ran gwasanaethau orthodontig yn y sir oherwydd pryder ynghylch prinder darpariaeth yn y sir. Cafodd y pryderon a godwyd gan y Pwyllgor eu trosglwyddo i Fwrdd Iechyd Hywel Dda a'u cyfeirio at y Cyngor llawn.

Ystyriodd y Pwyllgor yr astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer darparu gofal preswyl i oedolion â dementia a'r opsiwn o drawsnewid Cartref Preswyl Awel Deg yn Llandysul yn ei gyfanrwydd yn Gartref Preswyl Gofal Dementia a chytunwyd bod angen clir am safle preswyl yn ne'r Sir a chytunwyd â'r argymhellion a oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Presenoldeb yr Aelodau

Mae presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn ar gyfer yr un ar ddeg cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2010/11 i'w weld isod.

| Enw'r Aelod Craffu | Nifer o gyfarfodydd y bu'r Aelod yn bresennol ynddynt |
|----------------------------|---|
| W. D. L. Lloyd (Cadeirydd) | 11 |
| C.J Hughes (Is-gadeirydd) | 9 |
| E. E. ap Gwynn | 9 |
| J.M Cole | 5 |
| B.T Evans | 9 |
| G.E Evans | 6 |
| P.B.J Hinge | 6 |
| P. James | 7 |
| A.LI Jones | 10 |

| | |
|-----------------|----|
| J.D.R Jones MBE | 9 |
| T.H Lewis | 8 |
| G.I Lloyd | 8 |
| S.H Richards | 10 |
| J.E Roberts | 11 |
| J.I Williams | 9 |

Hyfforddiant

11 Mehefin 2010

Cynhaliwyd hyfforddiant ynghylch Craffu i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Hwyluswyd yr hyfforddiant hwn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

5 Tachwedd 2010

Trefnwyd sesiwn datblygu gyda Sefydliad Astudiaethau Llywodraeth Leol, Prifysgol Birmingham (INLOGOV) ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac Aelodau Cabinet. Thema'r sesiwn oedd datblygu perthynas gadarnhaol rhwng y weithrediaeth a'r elfen graffu er mwyn cynorthwyo'r broses wella.

Cymorth

Mae un Swyddog Cymorth Craffu a dau Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn cefnogi'r swyddogaeth Trosolwg a Chraffu.

Lisa Saycell
Swyddog Cymorth Craffu
Adran y Prif Weithredwr
Hydref 2011